# POLISI GWISG YSGOL

2023 - 2026

**YSGOL GYNRADD GROES-WEN PRIMARY SCHOOL**

# POLISI GWISG YSGOL

## Nodau ac Amcanion

Ein nod yn Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School, wrth annog y disgyblion i wisgo gwisg ysgol yw i:

- greu ymdeimlad o hunaniaeth a chydlyniant yn yr ysgol ac i ennyn balchder a pharch yn yr hyn a gyflawnir ganddi
- gefnogi ymddygiad positif a disgyblaeth o fewn yr ysgol
- sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n briodol ar gyfer gweithgareddau dysgu
- chwalu'r pwysau ymhlith cyfoedion i wisgo dillad gan 'gynllunwyr' ffasiwn
- sicrhau bod disgyblion o bob cefndir yn rhannu'r un hunaniaeth gan werthfawrogi bod eu gofynion arbennig yn cael eu cynnwys a'u parchu
- helpu i leihau'r anghydraddoldeb rhwng disgyblion a rhai ffactorau sy'n arwain at fwlio
- gefnogi a hyrwyddo ethos yr ysgol.

## Gwisg ysgol Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School


Mae gan yr ysgol wisg swyddogol sy'n cynnwys crys polo 'jade', crys chwys/cardigan glas tywyll, sgert/ffrog/trowsus llwyd (nid du). Yn ystod Tymor yr Haf, caiff y merched wisgo ffrog haf glas neu wyrdd a chaiff y disgyblion wisgo trowsus byr llwyd. Disgwylir i'r disgyblion wisgo esgidiau tywyll (du) (gan gynnwys trainers) neu sandalau addas (nid traed agored). Anogir y rhieni/gwarcheidwaid i brynu esgidiau a 'thrainers' gyda 'velcro' i ddisgyblion yr Adran Dan 7. Er taw YC Sports sydd yn gwerthu'r wisg Ysgol rydym yn annog ein rhieni i gadw un gwisg wedi brandio ac i fynd i Uwch-farchnad am setiau ychwanegol. Mae'r lliwiau ar gael ar lein gyda Marks and Spencers, sainsbury's ac Asda.

Cedwir esiamplau o'r wisg yn yr ysgol. Anfonir ffurflen archebu i bob teulu yn dymhorol.



**Gwisg Addysg Gorfforol**

Gwisg Addysg Gorfforol yr ysgol yw Crys-T gwyn Addysg Gorfforol Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School a siorts chwaraeon du.  (Nid oes angen bathodyn ar y crys).




Yn ystod y flwyddyn, bydd angen “trainers” ar y disgyblion i gyflawni gwahanol agweddau o’r pwnc.

*Anogir y rhieni/gwarcheidwaid i dorri enw eu plentyn/plant ar bob diledyn er mwyn gwarantu nad ydynt yn mynd ar ddifancoll.

**Cynhwysiad a Chydraddoldeb:**

**Crefydd neu gred**

Mae Deddf Hawliau Dynol 1988 yn diogelu'r hawl i ‘amlygu ymlyniad wrth grefydd neu gred’. Mae amryw grefyddau yn ei gwneud hi’n ofynnol bod eu dilynwyr yn cydymffurfio â chod gwisg penodol neu'n amlygu eu cred yn allanol. Mae rhai crefyddau yn mynnu bod eu dilynwyr yn gwisgo arteffactau crefyddol neu eu bod yn gwisgo mewn ffordd benodol.

Mae'n bosibl i nifer o ofynion crefyddol gael eu diwallu drwy bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Ystyrir yn ofalus gan y Corff Llywodraethu, unrhyw gais a wneir i amrywio'r polisi i ddiwallu anghenion disgyblion unigol er mwyn caniatáu am eu crefydd neu eu cred.

**Gwahaniaethu ar sail Anabledd**

Nid yw’r polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn rhoi disgyblion anabl o dan anfantais o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Gwneir addasiadau rhesymol i'r polisi er mwyn caniatáu am ofynion disgyblion anabl.

**Gwahaniaethu ar sail Rhywiol/Rhywedd**

Ni wahaniaethir ar sail rhyw. Mae modd i’r bechgyn a’r merched, fel ei gilydd wisgo trowsus/ siorts byr er mwyn sicrhau nad yw unrhyw o dan anfantais o'i gymharu â'r llall.

(*Mae hwn yn unol â Pholisi Cydraddoldeb Ysgol Gynradd Groes-wen Primary School*)

**Cost Gwisg Ysgol**

Cydnabyddwn y gall gwisg ysgol ac eitemau eraill y bydd yn ofynnol eu prynu yn unol â'r polisi gwisg ysgol fod yn faich ariannol yn arbennig i'r rheini o deuluoedd ar incwm isel a theuluoedd mawr. Gellir gwneud apwyntiad gyda’r Pennaeth i drafod unrhyw anhawster talu neu bryder. Bydd y Pennaeth yn ymdrin â phob cais yn unigol ac yn gyfrinachol. Rhydd hyn y cyfle i bob disgybl yn yr ysgol gael mynediad cyfartal i’r cwricwlwm.

Ar wahân i’r siwmperi a chardigan, mae modd prynu eitemau ein gwisg ysgol mewn amrediad helaeth o siopau. Nid yw’n ofynnol i brynu crys polo gyda logo yr ysgol arni.

**Iechyd a Diogelwch:**

Mae iechyd a dioglewch wrth wraidd popeth a wnawn yn yr ysgol. Amlinellir hyn yn ein polisiau perthasnol.

**Gemwaith**

Ni chaniateir gwisgo gemwaith na chlust dlysau yn yr ysgol. Pe dymunai unrhyw blentyn gael clust dlysau, anogir y rhieni i hyn ddigwydd yn ystod gwyliau'r Haf. Mae'n rhaid i'r disgyblion wisgo plastar dros y clustdlysau yn ystod gweithgareddau addysg gorfforol.

**Materion Meddygol**

Ystyrir yn ofalus geisiadau i amrywio'r polisi er mwyn diwallu anghenion disgybl unigol oherwydd cyflwr meddygol neu nam dros dro neu barhaol.

**Adolygiad**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob tair blynedd neu pan fo'n briodol mewn cysylltiad â datblygiadau cyfredol yn lleol a chenedlaethol.

Mae'r polisi hwn yn unol â chynnwys y ddogfen Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 006/2008.

Bydd Senedd yr Ysgol yn trafod y poisi hwn yn flynyddol hefyd:

………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………
……………………………………………………………


Ymateb y Pennaeth/Cam Ymlaen:

………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………

Llofnod y Pennaeth: 

Dyddiad: 15.06.23

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: 

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 1.0 |
| Dyddiad Adolygu: | Mehefin 2026 |